

**COFNODION CYFARFOD O'R BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD YN
SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF AR DYDD MAWRTH,
12 CHWEFROR 2019**

AELODAU

Y Cynghorydd Mark Pritchard, Cadeirydd
* Y Cynghorydd Hugh Jones, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	Andrew Atkinson	Y Cynghorydd	D J Griffiths
"	William Baldwin	"	* David Kelly
"	David A Bithell	"	Joan Lowe
"	Terry Evans	"	Phil Wynn

*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Brian Cameron, R Alun Jenkins, Adrienne Jeorrett, Gwenfair Jones, Marc Jones, Frank Hemmings, Paul Jones, John Pritchard, Paul Roberts, Graham Rogers a Derek Wright

98 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Hugh Jones a David Kelly.

99 IS-GADEIRYDD

Yn absenoldeb y Cynghorydd Hugh Jones, penodwyd y Cynghorydd David A Bithell yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod heddiw.

100 DATGANIADAU O GYSYLLTIADAU PERSONOL, OS OES RHAI

Atgoffwyd yr Aelodau o'u cyfrifoldeb, dan baragraff 11 Cod Ymddygiad yr Aelodau, i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw un o'r eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

Eitem 6 ar y Rhaglen – Rhaglen Gyfalaf 2018/19 - 2022/23

Y Cynghorwyr Brian Cameron, D J Griffiths, Frank Hemmings, R Alun Jenkins, Adrienne Jeorrett, Joan Lowe, John Pritchard, Graham Rogers a Phil Wynn – Cysylltiad Personol sy'n Rhagfarnu – Llywodraethwyr Ysgol. Arhosodd y Cynghorwyr yn y cyfarfod gan hawlio eithriad dan Baragraff 12(2) o God Ymddygiad yr Aelodau, cymryd rhan yn y drafodaeth ac yn achos Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd, pleidleisio wedi hynny.

101 CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2019.

Cywiriad i'r Cofnodion – Eitem 88 – Datganiadau o Gysylltiadau Personol, tudalen 5

Roedd Cofnodion y cyfarfod diwethaf yn nodi bod y Cynghorydd David A Bithell wedi

datgan cysylltiad personol gan ei fod yn Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam. Fodd bynnag, gofynnwyd bod y Cofnodion yn cael eu diwygio i nodi "Aelod o Gymdeithas Cefnogwyr Wrecsam".

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r newidiadau a nodwyd, bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2019 yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

102 PENODI AELODAU I GRWPIAU STATUDOL AC ANSTATUDOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol / Swyddog Monitro adroddiad (HCCS/06/19) yn gofyn i'r Aelodau ystyried penodi Aelodau i seddi gwag ar grwpiau Statudol ac Anstatudol sydd angen eu penodi gan y Bwrdd Gweithredol.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad a chyngori y derbyniwyd enwebiad gan y Cynghorydd Paul Rogers ar gyfer sedd ar Grŵp Strategaeth Adeiladau a Thir Corfforaethol a sedd ar y Panel Polisi Cynllunio.

PENDERFYNWYD -

- (i) **Bod y Cynghorydd Paul Rogers yn cael ei benodi i Grŵp Strategol Adeiladau a Thir Corfforaethol a Phanel Polisi Cynllunio.**
- (ii) **Y dylid delio â'r mater hwn fel mater brys yn unol â Rheol Sefydlog 43(1) yn Rheolau Sefydlog y Cyngor.**

Rhesymau dros y penderfyniadau

Cytuno penodi Aelodau i'r seddi gwag ar Grwpiau Statudol ac Anstatudol a sefydlwyd gan y Bwrdd Gweithredol. Y rheswm am y brys yw caniatáu i'r Aelodau hyn gael eu penodi i weithredu ar unwaith.

103 CADEIRYDD LLYWYDDOL

Gadawodd y Cadeirydd y Gadair a llywyddodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd David A Bithell, dros yr eitemau nesaf ar y Rhaglen, er mwyn galluogi'r Arweinydd i gyflwyno Eitemau 6 a 7 ar y Rhaglen yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Arweiniol Trefniadaeth - Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu.

(Y Cynghorydd David A Bithell yn Cadeirio)

104 RHAGLEN GYFALAF 2018/19 - 2022/23

(Nodir datganiadau o gysylltiad Aelodau â'r eitem hon yng Nghofnod 100 uchod)

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (HF/10/19) yn gofyn i Aelodau adolygu Rhaglen Gyfalaf 2018/19-2022/23 a gweithgareddau Rheoli Trysorlys.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Ceisiwyd eglurhad o ran oedi cyn adeiladu tai Cyngor newydd. Eglurodd y swyddogion bod yr oedi'n deillio'n bennaf oherwydd bod tir halogedig mewn nifer o'r safleoedd.
- Cadarnhad bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y byddent yn darparu cyllid ar gyfer priffyrdd, ac efallai y byddai modd ei ddefnyddio i atgyweirio tyllau mewn ffyrdd. Roedd yr Aelod Arweiniol yn ymchwilio sut y byddai'r arian yn cael ei wario ar hyn o bryd.
- Cydnabod y bu gorwariant ar waith i Ganol y Dref, ac roedd hyn o ganlyniad i waith ceblau / tir nas rhagwelwyd. Cyngorwyd yr Aelodau bod gan y contractwr waith pellach i'w wneud a oedd wedi ymestyn hyd y contract.
- Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â goleuadau stryd a pha gymunedau / ardaloedd oedd wedi'u blaenoriaethu. Eglurodd yr Aelod Arweiniol bod pob Aelod wedi'u hysbysu am gam 1, ac y byddent yn cael gwybod am gam 2 pan fyddai'n hysbys.

PENDERFYNWYD -

- (i) **Bod dyraniad ychwanegol o Gyllid Cyfalaf Cyffredinol Cymru yn 2018/19 a 2019/20 i fynd i'r afael â materion mawr yn asedau eiddo'r Awdurdod, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 2.5 o adroddiad HF/10/19, yn cael ei gymeradwyo.**
- (ii) **Cymeradwyo'r rhaglen dreigl ar gyfer 2018/19 hyd 2022/23, fel y manylir yn atodiadau 2 a 3 i adroddiad HF/10/19.**
- (iii) **Bod y rhaglen gyfalaf yn cael ei hadolygu a'i hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Gorffennaf 2019.**
- (iv) **Nodi Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys yn atodiad 4 i adroddiad HF/10/19.**

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) **Mae'r adroddiad hwn yn dilyn adroddiad monitro cynharach ym mis Hydref yn unol â Rheoliadau Ariannol 3.13 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Cyllid fonitro ac adrodd i Aelodau ar y Rhaglen Gyfalaf.**
- (ii) **Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gydymffurfio a Chod Materion Ariannol CIPFA. Mae'r dangosyddion a gyflwynir yn Atodiad 4 yn cwrdd gofynion y Cod.**

105

ILDIO'R BRYDLES BRESENNOL AC AIL-ROI PRYDLES 25 MLYNEDD NEWYDD I GLWB PÊL-DROED PENYCAE

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Trefniadaeth – Cyllid, Perfformiad, Iechyd a Diogelwch a Llywodraethu adroddiad (HHE/57/18) yn ceisio cymeradwyaeth Aelodau i ildio prydles bresennol dyddiedig 17 Tachwedd 2005 a chymeradwyo prydles newydd 25 mlynedd i Glwb Pêl-droed Penycae, mewn perthynas â thir yn Ffordd Afoneitha,

Penycae.

PENDERFYNWYD - Bod Pennaeth Tai a'r Economi yn derbyn awdurdod i drafod a chadarnhau amodau a thelerau gan gynnwys ildio'r brydles bresennol a chymeradwyo prydles newydd am 25 mlynedd i Glwb Pêl-droed Penycae ar gyfer yr ardal a brydlesir (fel y nodwyd gydag ymyl coch yn Atodiad 2 adroddiad HHE/57/18).

Rheswm dros y penderfyniad

Galluogi'r Cyngor i lunio Gweithred Ildio gyda Chlwb Pêl-droed Penycae ar gyfer y brydles bresennol ar gyfer y tir yn Afoneitha a chymeradwyo prydles newydd am 25 mlynedd. Bydd hyn yn galluogi Clwb Pêl-droed Penycae i archwilio a sicrhau ffrydiau cyllid newydd ar gyfer gwella'r cyfleusterau presennol er budd y clwb pêl-droed a'r gymuned leol.

(Y Cynghorydd Mark Pritchard yn cadeirio)

106 GOSOD RHENT A CHYLLIDEB AR GYFER Y CYFRIF REFENIW TAI 2019/20

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Lle – Tai adroddiad (HHE/05/19) i dderbyn cytundeb yr Aelodau ynglŷn â'r gyllideb ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar gyfer 2019/20 a'r lefelau rhent o ganlyniad i hynny.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ei adroddiad ac ymatebodd i gwestiynau yn unol â hynny. Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhad bod oddeutu 30% o denantiaethau nad oeddent wedi cyrraedd y lefel rhent targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Awgrym bod Credyd Cynhwysol yn cael effaith negyddol ar nifer y tenantiaid mewn dyled.
- Cadarnhad bod Swyddogion wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gefnogi tenantiaid lle bo modd.

PENDERFYNWYD -

- (i) Gosod y rhenti targed ar gyfer mathau o eiddo unigol ar gyfer 2019/20, fel y manylwyd o fewn Atodiad 2 adroddiad HHE/05/19.**
 - (i) ar gyfer eiddo sydd yn is na'r rhenti targed ar gyfer 2019/20 - cynyddu rhent o 2.4% yn ogystal ag uchafswm o £2.16 yr wythnos (ar sail 49 wythnos) neu swm is, os yw hyn yn cyflawni'r Rhenti Targed yn 2019/20.**
 - (ii) ar gyfer Eiddo ar y Rhenti Targed neu uwchlaw'r Rhenti Targed ar gyfer 2019/20 dim cynnydd yn y rhent.**
 - (iii) cynnydd o 2.4% ar gyfer rhent garejis i £8.08 yr wythnos (ar sail 49 wythnos);**

- (iv) cynnydd o 2.4% ar leiniau garejis (tâl blynyddol o £53.50).
 - (v) cynnydd o 2.4% ar dâl gwasanaeth Warden i £3.38 yr wythnos;
 - (vi) cynnydd o 2.4% ar daliadau i leiniau ar gyfer Teithwyr i £84.99 (a £100.56 ar gyfer lleiniau mwy) (ar sail 53 wythnos);
- (ii) Cymeradwyo cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019/20 fel y nodir yn Atodiad 1; a
- (iii) Y dylid ymdrin â'r mater dan sylw fel eitem frys yn unol â Rheol Sefydlog 43(1) o Reolau Sefydlog y Cyngor.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (i) I osod lefelau rhent cyffredinol ar gyfer anheddau'r Cyngor ar gyfer 2019/20 yn unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru a sicrhau bod y Cyfrif Refeniw Tai yn gweithredu â lefelau priodol o falensau.
- (ii) Dylid delio â'r mater hwn yn unol â Rheol Sefydlog 43 (1) oherwydd gofyniad o dan Ddeddf Tai 1985 adran 103 bod Rhybudd o Amrywiad Rhent yn cael ei gyflwyno i denantiaid yr effeithir arnynt. Rhaid i'r cyfnod rhwng y dyddiad y mae'n cael ei gyflwyno a'r dyddiad y mae'n dod i rym fod o leiaf pedair wythnos.

107

CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2019/20

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Lle – Tai adroddiad (HHE/03/19) i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 er mwyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad, ac fe ganmolodd yr Aelodau'r cyflawniadau a wnaed hyd yma. Cyfeiriwyd at y rhaglen gwella ceginau ac ystafelloedd ymolchi, a oedd yn dod i ben, a'r rhaglen gwaith allanol a wnaeth wahaniaeth mawr i ymddangosiad y stoc dai. Croesewir buddsoddiad pellach yng ngwelliannau llety tai gwarchod hefyd.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rheswm dros y penderfyniad

I gydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn flynyddol a dangos bod cyllideb ddigonol i gyflawni Rhaglen Gyfalaf Tai er mwyn codi ei stoc o dai i Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020.

Y Cynghorydd Mark Pritchard
Cadeirydd